



Caerdydd
Un
Blaned

Ein gweledigaeth ar
gyfer **Dinas Carbon
Niwtral** erbyn 2030

Dadansoddiad o allyriadau Gweithredol y Cyngor a'r Ddinas gyfan **Adolygiad Blynyddol 2024/25**



**STRONGER
FAIRER
GREENER**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

Cynnwys

Cefndir 3

ALLYRIADAU GWEITHREDOL Y CYNGOR :

Dadansoddiad o Allyriadau Carbon.....	3
Data Gweithredol Pennawdol.....	4
Adeiladau	6
Goleuadau stryd	8
Fflyd	9
Teithio busnes	11
Cymudo	12
Gweithio gartref	13
Gwastraff	14
Allyriadau ar y tir	15
Caffael	16


DATA DINAS CYFAN :

Dadansoddiad o Allyriadau Caerdydd Ledled y Ddinas	18
Data Allweddol Dinasyddol 2019 - 23	19
Data Allweddol Dinasyddol 2022 - 23	20
Cymharu dinasoedd craidd	21
Trafnidiaeth	22
Domestig	23
Diwydiant	23
Masnachol	24
Sector Cyhoeddus	25
Gwastraff	25
Cymhariaeth ranbarthol	26

Casgliad 26



CHWOWR HESE STOWES
RET OWNDHORIZING
OF WF HAIS AWENSUG



Cefndir

AFel rhan o'n hymateb i uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030, mae allyriadau gweithredol y Cyngor yn cael eu cyfrifo'n flynyddol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae canfyddiadau'r pedwerydd Dadansoddiad Carbon Gweithredol blynyddol yn cael eu trafod yn nhudalennau canlynol yr adroddiad hwn, gyda chymhariaeth rhwng y flwyddyn adrodd gyfredol (2024/25), gwaelodlin 2019/20 a'r flwyddyn flaenorol (2023/24).

Mae'r ystadegau carbon a gynhyrchir gan y Llywodraeth Ganolog mewn perthynas â'r ddinas gyfan hefyd yn cael eu cyflwyno. Mae'r adroddiadau hyn yn sail ar gyfer monitro ein cynnydd yn erbyn targed Strategaeth Caerdydd Un Blaned o Ddinas Carbon Niwtral erbyn 2030.

Dadansoddiad o Allyriadau Carbon

Rhoddodd y Strategaeth Caerdydd Un Blaned wreiddiol yn 2021 amcangyfrif o allyriadau carbon y Cyngor gan ddefnyddio blwyddyn waelodlin 2019/20, ynghyd â dadansoddiad ar gyfer 2020/21. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod gwaelodlin garbon Caerdydd Un Blaned yn ymwneud â gweithgareddau "arferol" cyn y pandemig, er mwyn peidio â chael ei ystumio gan oblygiadau amrywiol y cyfyngiadau clo yn ystod Covid. Y gydnabyddiaeth allweddol o'r dadansoddiad hwnnw oedd bod yr allyriadau carbon a "achoswyd" gan weithgareddau caffael y Cyngor yn fwy o lawer na phob math arall o allyriadau mwy uniongyrchol, h.y. y rhai o wresogi a phweru adeiladau ac o'n gweithgareddau teithio a symudedd.


Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio methodoleg fframwaith adrodd carbon Llywodraeth Cymru i gofnodi ei allyriadau mewn ffordd gyson sy'n cyd-fynd â sefydliadau sector cyhoeddus eraill ledled Cymru. Mae'r fframwaith hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio adrodd sy'n seiliedig ar "weithgarwch" o dan y penawdau canlynol.

- Adeiladau
- Goleuadau stryd
- Fflyd
- Trafnidiaeth busnes
- Cymudo
- Gweithio Gartref
- Gwastraff
- Allyriadau ar y tir ac atafaelu (dal carbon)
- Cadwyn gyflenwi (allyriadau sy'n deillio o wariant Caffael)

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol gyfrifo eu hallyriadau carbon, a phan fo newidiadau i'r fethodoleg, rydym yn ôl-fynegi ein data carbon ar gyfer y flwyddyn waelodlin ynghyd â'r flwyddyn flaenorol er mwyn galluogi cymharu data.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Dangosfwrdd Carbon Corfforaethol sy'n gwneud allyriadau gweithredol y Cyngor yn hygyrch i reolwyr y Cyngor ac yn dadansoddi'r allyriadau corfforaethol ar lefel eang y Gyfarwyddiaeth. Diben hyn yw cefnogi Arweinwyr y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd i nodi eu prif ffynonellau allyriadau carbon ac i ddechrau cynllunio'n rhagweithiol i fynd i'r afael â'r rhain.

DANGOSFWRDD MONITRO CARBON



The screenshot shows the 'Carbon Monitoring Dashboard' interface. At the top, there is a header with the title and a help icon. Below the header, there is a paragraph of introductory text about climate change and the dashboard's purpose. The main content area features two rows of buttons for navigation: 'Council - Table', 'Council - Year Summary', 'Council - Category Summary', and 'Council - Category Proportions' in the first row; and 'Directorate - Table', 'Directorate - Totals', 'Directorate - Category Summary', and 'Directorate - Category proportions' in the second row. At the bottom, there are logos for Caerdydd Un Blaned, One Planet Cardiff, and Innovate UK.

Data Gweithredol Penawdol

Rhwng 2019/20 a 2024/25, ac eithrio allyriadau caffael, Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos bod allyriadau gweithredol uniongyrchol y Cyngor, rhwng 2019/20 a 2024/25, wedi gostwng o 51,148 tonnell CO₂ e i 42,747 tonnell CO₂ e. Roedd hyn yn ostyngiad o 16% ers dechrau strategaeth Caerdydd Un Blaned. Bu gostyngiadau mewn allyriadau yn y rhan fwyaf o feysydd gweithgarwch, ac eithrio fflyd, ac yn enwedig mewn goleuadau stryd a gwastraff (gweler y tabl canlynol). Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn allyriadau caffael yn negyddu'r gostyngiadau allyriadau hyn ac yn gyffredinol, mae cynnydd o 38% mewn allyriadau dros y cyfnod hwn.

Rhwng 2023/24 a 2024/25, ac eithrio allyriadau caffael, bu cynnydd o 2% mewn allyriadau gweithredol. Mae'n ymddangos bod y gostyngiad cychwynnol mewn allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau rhwng 2019 a 2023, yn bennaf oherwydd y defnydd llai o eiddo'r Cyngor trwy fentrau gweithio hybrid a rhesymoli ystadau, bellach wedi cyrraedd sefyllfa sefydlog. Bu cynnydd ymylol o 1% mewn allyriadau adeiladau rhwng 2023/24 a 2024/25, ac efallai bod gaeaf 2024/25 a oedd ychydig yn oerach na gaeaf mwyn 2023/24 yn gyfrifol am y cynnydd lleiaf hwn. Mae'n ymddangos bod y gostyngiadau mewn allyriadau o ran goleuadau stryd hefyd bellach wedi lefelu gyda gostyngiad o 1% yn unig wedi'i gofnodi rhwng 2023/24 a 2024/25, ar ôl gostyngiad o 38% o'r flwyddyn waelodlin (2019/20) hyd at 2023/24. Mae allyriadau'r fflyd yn parhau i gynyddu gyda chynnydd o 9% rhwng 2023/24 a 2024/25.

CYFANSWM ALLYRIADAU CARBON GWEITHREDOL Y FLWYDDYN WAELODLIN (2019/20), Y FLWYDDYN FLAENOROL (2023/24) A'R FLWYDDYN GYFREDOL (2024/25) :

CATEGORïAU	2019/20	2023/24	2024/25	% y newid o'r waelodlin	% y newid o'r flwyddyn flaenorol
	Carbon (kg CO ₂ e)	Carbon (kg CO ₂ e)	Carbon (kg CO ₂ e)		
Adeiladau	27,605,290	22,934,234	23,268,931	-16%	1%
Goleuadau stryd	4,035,571	2,518,028	2,493,224	-38%	-1%
Fflyd	5,744,400	5,513,308	6,029,992	5%	9%
Teithio busnes	713,496	565,019	561,953	-21%	-1%
Cymudo	12,684,031	10,949,309	10,542,820	-17%	-4%
Gweithio gartref	65,040	1,065,087	1,395,259	2045%	31%
Gwastraff	2,372,527	348,698	527,240	-78%	51%
Allyriadau tir	-2,072,623	-2,074,728	-2,072,623	0%	0%
Caffael	125,262,100	166,879,846	201,151,615	61%	21%
Cyfansymiau	176,409,832	208,698,801	243,898,412	38%	17%
Cyfanswm (heb gynnwys caffael)	51,147,732	41,818,955	42,746,797	-16%	2%


Data Gweithredol Penawdol

Mae'r data yn dangos bod y duedd gadarnhaol gychwynnol o leihau carbon ar draws gweithrediadau'r Cyngor ers blwyddyn waelodlin 2019/20 bellach wedi cyrraedd uchafbwynt neu o bosibl wedi cyrraedd sefyllfa sefydlog. Mae allyriadau o adeiladau, goleuadau stryd, teithio at ddiben busnes a chymudo yn parhau i fod yn eithaf tebyg i'r flwyddyn flaenorol, tra bod allyriadau'r fflyd, caffael a gweithio gartref i gyd wedi cynyddu. Mae gwastraff hefyd yn dangos cynnydd mewn allyriadau, er bod hyn oherwydd newid mewn methodoleg adrodd a heb y newid hwn i'r fethodoleg, mae allyriadau gwastraff yn parhau i leihau.

I grynhoi, mae'r data yn dangos nad ydym yn parhau i leihau ein hallyriadau fel Cyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn ac felly bydd yn heriol cyrraedd ein targed carbon niwtral fel sefydliad ar gyfer 2030. Mae'r graffiau a'r siartiau canlynol yn darparu rhagor o fanylion.


CYMHARIAETH FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN O ALLYRIADAU CARBON GWEITHREDOL HEB GAFFAEL

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



DADANSODDIAD O ALLYRIADAU CARBON GWEITHREDOL HEB GAFFAEL AR GYFER 2024/25

● Adeiladau
 ● Cymudo
 ● Fflyd
 ● Goleuadau stryd
 ● Gweithio gartref
 ● Teithio busnes
 ● Gwastraff
 ● Allyriadau tir




Adeiladau

Bu gostyngiad 16% mewn allyriadau o adeiladau rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25 ond bu cynnydd 1% rhwng 2023/24 a 2024/25.


CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU ADEILADAU (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



CYMHARIAETH O'R DADANSODDIAD O GYFANSWM ALLYRIADAU ADEILADAU (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



Adeiladau

Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Mae'r duedd i lawr a nodwyd rhwng y flwyddyn waelodlin a 2024/25 yn cael ei phriodoli i raddau helaeth i'r defnydd llai o eiddo'r Cyngor sy'n deillio o weithio hybrid, ildio safleoedd ac ailbwrpasu safleoedd eraill. Mae pwyntiau sy'n benodol i safleoedd i'w nodi yma yn cynnwys:

- Dechrau gwaith adnewyddu effeithlonrwydd ynni sylweddol, gan gynnwys system wresogi nwy prif gyflenwad Neuadd y Ddinas
- Cau Neuadd Dewi Sant
- Ailbwrpasu Neuadd y Sir
- Trosglwyddo Tŷ Wilcox
- Ychwanegu tair 'Ysgol Sero Net' (ar ôl cau eu hen safleoedd oedd yn defnyddio lefel uchel o nwy).

Er y bu cymysgedd o lwyddiant wrth leihau carbon, gellir adlewyrchu'r cynnydd bach mewn allyriadau rhwng 2023/24 a 2024/25 mewn aneffeithlonrwydd a/neu oedi i lawer o brosiectau lleihau carbon a nodwyd ar gyfer 2024/25. Yn fwyaf diweddar, nid oedd Re:fit 4 yn gallu cael ei wireddu'n llawn oherwydd yr aeth y contractwr penodedig i ddwylo gweinyddwyr. Wedi dweud hynny, roedd y Cyngor yn gallu bwrw ymlaen â cham 1a a cham 1b y cynllun Re:fit 4 trwy ddyfarniadau uniongyrchol. Yn ogystal, efallai bod gaeaf 2024/25 a oedd ychydig yn oerach na gaeaf mwyn 2023/24 yn cyfrif am y cynnydd lleiaf hwn. Mae tuedd y data allyriadau ar gyfer adeiladau Cyngor Caerdydd yn debyg i'r un yr adroddwyd amdani gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon cyffredinol o adeiladau'r sector cyhoeddus ers 2019.

Mae gweithio hybrid ac ailbwrpasu safleoedd yn dal i gyfrannu llawer at gadw carbon ar lefelau is na lefelau cyn Covid. Er y dylid lleihau rhai allyriadau pan fydd y rhaglen waith Re:fit yn gallu parhau ar y portffolio ysgolion, efallai na welir gostyngiadau carbon sylweddol tan flynyddoedd diweddarach Strategaeth Caerdydd Un Blaned oherwydd yr amser sydd ei angen i gynlluniau mawr gael eu llunio, eu caffael a'u gweithredu, ac i'r ffactor allyriadau trydan leihau wrth i ynni adnewyddadwy gyfrannu mwy at ddatgarboneiddio'r grid cenedlaethol.


Dylid nodi bod y ffactorau allyriadau trydan a nwy a osodwyd yn genedlaethol wedi aros yn weddol debyg dros y 3 blynedd diwethaf, er eu bod wedi gostwng ers blwyddyn waelodlin 2019/20.

GWAITH YN Y DYFODOL :

Mae moderneiddio'r ystâd yn parhau i fod y maes ffocws mwyaf heriol oherwydd yr adnoddau, yr amser, y maint a'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth y fath ymyriadau ffisegol sydd eu hangen i leihau ôl troed carbon mewn adeiladau. Mae'r prif faes her i'w gael yn yr ystâd ysgolion gan gynnwys gweithrediad statudol, mathau o eiddo, aflonyddwch posibl o ganlyniad i waith ar raddfa fawr, a maint a chost yr ymyriadau sydd eu hangen. Mae hyn i gyd yn ychwanegol at opsiynau cyllido cyfyngedig.

Rydym bellach yn ystyried ac yn cynllunio ein rhaglen gynlluniau ar gyfer 2026/27 a fydd yn debygol o gynnwys buddsoddiadau penodol a ffocws ar draws yr ystâd h.y. LED, ffotofoltäig ac ati, ynghyd â chynlluniau ailwampio newydd unwaith y bydd y fframwaith hwnnw'n agor eto (Re:fit 5). Felly, dylai allyriadau o adeiladau ddechrau gostwng pan fydd y rhaglen waith Re:fit yn parhau ar y portffolio ysgolion.

DS: Mae'r holl ddata a adroddwyd i Lywodraeth Cymru ac yn yr adroddiad hwn yn cynnwys allyriadau Cwmpas 3, yn ogystal â Chwmpas 1 a 2. Mae Rheoli Ynni yn adrodd eu data defnydd ynni adeiladau yn fewnol heb ddata cwmpas 3 (tua 25% o gyfanswm yr allyriadau), felly dylid nodi nad yw'r ddwy set ddata yn uniongyrchol gymaradwy.






Goleuadau stryd

Mae allyriadau o oleuadau stryd wedi gostwng 38% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, ond dim ond 1% rhwng 2023/24 a 2024/25.

CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU GOLEUADAU STRYD (kg CO₂ e)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Gellir priodoli'r duedd ddata hon yn bennaf i waith addasu tua 24,000 o oleuadau preswyl o halid metel i LED a ddechreuwyd ym mis Medi 2021 a'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2023. Mae cwblhau'r prosiect hwn yn golygu bod holl oleuadau stryd priffyrdd y Cyngor, sef tua 39,000 ohonynt, bellach wedi'u newid i LED ac yn cael eu rheoli gan System Reoli Ganolog (SRhG).

Mae'r SRG yn cael ei defnyddio i bylu'r goleuadau o hanner nos tan 6am yn bennaf ar y rhwydwaith preswyl ac mae hyn wedi lleihau'r defnydd o ynni ymhellach ac wedi helpu i ostwng allyriadau CO₂.

GWAITH YN Y DYFODOL :

Efallai y bydd rhai gostyngiadau bach pellach yn y dyfodol wrth i ni drawsnewid neu ddadleuo ein celfi stryd megis arwyddion a bolardiau wrth i arian ddod ar gael. Fodd bynnag, bydd hyn yn symiau bach oherwydd y defnydd cychwynnol is o 5,000 o'r asedau hyn. Mae addasu goleuadau signalau traffig hefyd yn rhoi cyfle i ostyngiadau pellach, ond eto mae hyn yn amodol ar gyllid ac mae'n anochel y bydd hyn yn cael ei wneud dros sawl blwyddyn yn hytrach nag ar un tro. Yn ogystal, bydd allyriadau o'r maes gweithgarwch hwn hefyd yn gostwng gyda thueddiadau datgarboneiddio ehangach y Grid Cenedlaethol.

IDylid ystyried hefyd y bydd unrhyw ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn y dyfodol mewn carbon o ganlyniad i newidiadau i'n celfi stryd/signalau traffig yn debygol o gael ei wrthbwysu wrth i'n hasedau mabwysiedig gynyddu ar draws y Cyngor oherwydd gwaith newydd a chynyddu tai yng Nghaerdydd.




Fflyd

Bu cynnydd 5% mewn allyriadau o'r fflyd rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, a 9% rhwng 2023/24 a 2024/25.


CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU'R FFLYD (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



CYMHARIAETH O'R DADANSODDIAD O GYFANSWM ALLYRIADAU'R FFLYD (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



Fflyd

Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Hyd at 2024/25 roeddem wedi gweld gostyngiad bach mewn allyriadau o'r fflyd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y rheswm pennaf am hyn oedd gostyngiad yn nifer y cerbydau yn y fflyd a'r newid i gynnwys cerbydau trydan. Mae'r cynnydd diweddar mewn allyriadau (o'r flwyddyn waelodlin a'r flwyddyn flaenorol) yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y cerbydau yn ein fflyd mewn rhai meysydd gwasanaeth ac yn enwedig Rheoli Gwastraff, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r duedd hon o gynnydd mewn milltiroedd ac allyriadau'r fflyd hefyd yn cael ei hadrodd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn ei adolygiad 2024/25 o allyriadau carbon holl gyrff cyhoeddus Cymru.

Nodir y cynnydd yn y tanwydd a ddefnyddiwyd o 2023/24 i 2024/25 yn y tabl i'r dde.

GWAITH YN Y DYFODOL :

Mae'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog, gan weithio gyda Chyfarwyddiaethau, yn ceisio cynyddu nifer y cerbydau trydan (ar hyn o bryd – o'r 957 o gerbydau yn ein fflyd, mae gennym 114 sy'n gwbl drydan). Maent yn datblygu rhaglen amnewid fflyd wedi'i chostio'n llawn gyda'r nod o drosglwyddo i gerbydau trydan lle bynnag y bo modd. Bydd y rhaglen hon a'i goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried yn ddiweddarach ym mlwyddyn ariannol 26/27.

CYMHARU CYFANSWM Y LITRAU O DANWYDD A DDEFNYDDIWYD YN Y FLWYDDYN FLAENOROL (2023/24) A'R FLWYDDYN GYFREDOL (2024/25)


CYFARWYDDIAETH	CYFANSWM Y LITRAU A DDEFNYDDIWYD 2023/24	CYFANSWM Y LITRAU A DDEFNYDDIWYD 2024/25	GWAHANIAETH MEWN LITRAU
OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU	320,077	338,904	18,827
GWASANAETHAU PLANT	23,315	30,840	7,525
DATBLYGU ECONOMAIDD	1,226,523	1,446,396	219,873
ADDYSG	12,686	13,327	641
PERFFORMIAD	0	3,294	3,294
ADNODD	19,247	20,678	1,431

Teithio Busnes

Bu gostyngiad 21% mewn allyriadau o deithio busnes rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, ac 1% rhwng 2023/24 a 2024/25.


CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU TEITHIO BUSNES (kg CO₂ e)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU TEITHIO BUSNES (kg CO₂ e)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



Y SEFYLLFA BRESENNOL

Bu gostyngiad mewn teithio busnes (sef teithio mewn ceir preifat ac ar drafndiaeth gyhoeddus at ddibenion cynnal busnes y Cyngor yn ystod y diwrnod gwaith) o flwyddyn waelodlin 2019/20 oherwydd gostyngiad mewn hawliadau am ddefnydd personol o geir dros y cyfnod hwn. Mae hawliadau ar gyfer ceir personol wedi gostwng o 1,934,766 milltir yn 2019/20 i 1,642,634 milltir yn 2024/25. Mae'n debyg bod hyn yn cael ei gefnogi gan y newid i gyfarfodydd ar-lein ond mae hefyd yn adlewyrchu rhai newidiadau i fethodolegau darparu gwasanaethau, megis cyflwyno e-feiciau ac aildrefnu ardaloedd lleol i leihau'r angen i rai staff cymunedol deithio. Rhwng 2023/24 a 2024/25 bu mân ostyngiad o 1% yn nifer yr hawliadau am ddefnydd personol o geir ac ar gyfer bysus, trenau a thacsis.




Cymudo

Bu gostyngiad 17% mewn allyriadau cymudo rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, a 4% rhwng 2023/24 a 2024/25.


CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU CYMUDO (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



CCYMHARIAETH O'R DADANSODDIAD O GYFANSWM ALLYRIADAU TEITHIO BUSNES (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Y rheswm am y gostyngiad mewn allyriadau cymudo rhwng 2019/20 a 2023/24 yw oherwydd y newid i weithio hybrid yn dilyn Covid, gyda dim ond nifer bach o staff yn gweithio gartref yn 2019/20. Newidiodd yr amcangyfrifon cyfartalog o weithio gartref o 15% yn 2023/24 i 20% yn 2024/25. O ganlyniad, bu gostyngiad 4% yn yr allyriadau cymudo rhwng 2023/24 a 2024/25. Mae arolwg teithio staff 2024 yn dangos bod y mwyafrif o'r staff yn cymudo mewn car preifat.




Gweithio gartref

Bu cynnydd 2045% mewn allyriadau gweithio gartref rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, a 31% rhwng 2023/24 a 2024/25.

CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU GWEITHIO GARTREF (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Bu cynnydd sylweddol mewn allyriadau o'r flwyddyn waelodlin oherwydd mai dim ond ychydig o staff oedd yn gweithio gartref cyn Covid yn 2019/20. Y rheswm am y cynnydd o 31% mewn allyriadau carbon o'r flwyddyn flaenorol i'r flwyddyn gyfredol yw oherwydd canran y staff yr amcangyfrifir eu bod yn gweithio gartref yn cynyddu o 15% yn 2023/24 i 20% yn 2024/25.

IDylid cofio bod yr allyriadau cymudo a gweithio gartref yn amlwg yn gysylltiedig ond mae'r ffigurau hefyd yn dibynnu ar fetrigau eraill, megis y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus o'i gymharu â cheir preifat, ac effeithlonrwydd ynni cartrefi a gweithleoedd unigol. Mae'r ffactorau hyn yn gweithredu ac yn effeithio ar lefel ddinas gyfan yn fwy sylweddol na lefel weithredol y Cyngor.






Gwastraff

Bu cynnydd 78% mewn allyriadau gwastraff rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, ond bu cynnydd 51% rhwng 2023/24 a 2024/25.

CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU GWASTRAFF (kg CO₂e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Mae'r holl wastraff yn cael ei gasglu yng ngherbydau gwastraff y Cyngor ac mae'r tanwydd a ddefnyddir yn cael ei gyfrif yng nghyfrifiad ôl troed y fflyd. **Y prif ffactor yn y gostyngiad o 78% mewn allyriadau gwastraff rhwng y flwyddyn waelodlin a 2024/25 yw bod gwastraff wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi i gyfleuster 'ynni o wastraff' Viridor.**

Y rheswm am y cynnydd mewn allyriadau gwastraff rhwng 2023/24 a 2024/25 yw oherwydd sut mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu rhai o'n ffrydiau gwastraff. Mae rhywfaint o'n deunydd gwydr wedi'i ailgylchu, gwydr mâl 0-10mm anadweithiol, yn gallu bod yn ddewis amgen cynaliadwy i dywod naturiol neu agregau, gyda defnydd allweddol fel gorchudd gwastraff tirlenwi. Rydym yn gwerthu rhywfaint o'r deunydd gwydr wedi'i ailgylchu hwn i gontractwr sydd yn ei dro yn defnyddio'r gwydr mâl hwn fel gorchudd gwastraff tirlenwi ac rydym yn ei ystyried yn ganlyniad cadarnhaol a chylchol iawn.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu hyn fel gwaredu gwastraff tirlenwi yn hytrach na'i ailgylchu, ac felly cymhwysir ffactorau allyriadau cysylltiedig. Gwerthwyd swm sylweddol o'r gwydr hwn at y diben hwn yn 2024/2025 o'i gymharu â 2023/2024. Os nad yw'r llif gwastraff hwn yn cael ei ystyried, yna mae allyriadau gwastraff yn parhau i leihau.

GWAITH YN Y DYFODOL :

Mae rhaglen gynhwysfawr o waith yn y dyfodol ar y gweill, sydd â'r nod o wella gwasanaethau ac ymgysylltu â phreswylwyr. Mae hyn yn cynnwys cynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau gwastraff gweddilliol trwy estyn casgliadau gwastraff gardd, gwella ailgylchu gwastraff masnachol ac ymgyrchoedd targedig ar gyfer ailgylchu ar wahân mewn fflatiau, cefnogi'r economi gylchol trwy gyflwyno mentrau ailddefnyddio ac atgyweirio, optimeiddio llwybrau casglu ac ymgyrchoedd newid ymddygiad penodol i'r cyhoedd a busnesau.




Allyriadau ar y tir

Mae allyriadau ar y tir wedi newid o 0% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20, y flwyddyn flaenorol 2023/24 a'r flwyddyn gyfredol 2024/25.

CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU AR Y TIR (kg CO₂e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)




Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Mae'r ffigurau ar gyfer allyriadau ar y tir yn arwydd o'r effeithiau cadarnhaol y mae coed a seilwaith gwyrdd ar dir y Cyngor yn eu cael wrth ddal carbon, neu "atafaelu" a storio carbon. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar leihau carbon yn ogystal â llawer o fuddion amgylcheddol eraill.

Mae cyfanswm hectarau'r tir gweithredol yn newid ychydig bob blwyddyn wrth i barseli bach o dir gael eu gwerthu a'u caffael, ac o ganlyniad mae hyn yn cael effaith ddibwys ar y newid yn allyriadau'r Cyngor o dir flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r allyriadau gwrthbwyso o goetir a glaswelltir bron ddwywaith y lefel o CO₂ e â'r allyriadau tir o ardaloedd anheddu.

Roedd cyfanswm hectarau'r tir gweithredol fwy neu lai yr un gwerth yn 2024/25 ag yn 2019/20 ac yn y flwyddyn flaenorol, ac felly nid oes unrhyw newid mewn allyriadau.




Caffael

Wrth i'r gwariant cyffredinol gynyddu, bu cynnydd **61% mewn allyriadau caffael rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, a 21% rhwng 2023/24 a 2024/25.**


CYMHARIAETH O GYFANSWM ALLYRIADAU CAFFAEL (kg CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019/20), y Flwyddyn Flaenorol (2023/24) a'r Flwyddyn Gyfredol (2024/25)



BLWYDDYN GYFREDOL (2024/25) GAN GYNNWYS CAFFAEL :

- Caffael
- Adeiladau
- Cymudo
- Fflyd
- Goleuadau stryd
- Gweithio gartref
- Teithio busnes
- Gwastraff
- Allyriadau tir



Y SEFYLLFA BRESENNOL :

Mae allyriadau o'r gadwyn gyflenwi neu gaffael yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o ôl troed carbon gweithredol y Cyngor, sef 82% o gyfanswm yr allyriadau. Fel y nodwyd mewn adroddiadau CUB blaenorol, mae gan y fethodoleg a ddefnyddir i asesu'r maes cymhleth hwn gyfyngiadau sylweddol ac y dylid trin yr ystadegau'n ofalus iawn. Dechreuodd Llywodraeth Cymru sawl darn o waith gyda'r nod o wella'r fframwaith dadansoddi, ac mae tîm Caffael y Cyngor hefyd wedi gwneud cynnydd da yn y gwaith i ddeall ôl troed cadwyn gyflenwi'r Cyngor a nodi'r meysydd â'r gwariant carbon uchaf.

Rhwng 2023/24 a 2024/25 mae gwariant wedi cynyddu mewn nifer o feysydd oherwydd llawer o ffactorau gan gynnwys chwyddiant, cynnydd yn y galw am wasanaethau a hefyd prosiectau cyfalaf sylweddol ychwanegol sy'n parhau. **Mae'r gwariant wedi cynyddu oddeutu 6% (o £664,992,766 i £704,048,108), tra bod allyriadau wedi cynyddu 21%.** Mae hyn oherwydd bod y mwyafrif o'r ffactorau allyriadau o fewn caffael yn cynyddu yn ystod y cyfnod hwn. Bu cynnydd mewn 94 o'r 110 ffactor, gyda 15 o'r rheini'n cynyddu'n fwy na 50%. Mae'r duedd hon o ran cynnydd mewn allyriadau hefyd wedi'i hadrodd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon caffael ar draws y sector cyhoeddus yn 2024/25.

Caffael

Fodd bynnag, gwyddom fod y ffigurau'n cuddio tueddiadau a chanlyniadau llawer mwy cadarnhaol. Yn gyntaf, dylid cydnabod ein bod yn gwario mwy eleni nag yn y blynyddoedd blaenorol, sy'n adlewyrchiad o'n cyflymder cyffredinol wrth ddarparu gwasanaethau a'n cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Yn ail, rydym yn hyderus bod cyfran sylweddol a chynyddol o'n prosiectau bellach wedi'u hanelu'n benodol at leihau carbon ac yn ehangach at ein hymateb strategol i'r argyfwng hinsawdd. Ymhlith y prif brosiectau sy'n dangos hyn mae:

- Gwaith amddiffyn rhag llifogydd mawr ar gyrion arfordirol y ddinas a systemau draenio cynaliadwy mewn mannau eraill;
- Gwaith ôl-osod ynni sylweddol i'n hadeiladau, gan gynnwys uwchraddio'r systemau gwresogi yn Neuadd y Ddinas;
- Rhaglen Cartrefi Caerdydd – yn darparu tai carbon isel effeithlon iawn ledled y ddinas;
- Gwaith sylweddol i greu ac uwchraddio lonydd beicio ledled Caerdydd;
- Rhwydwaith Gwres Caerdydd, sy'n darparu gwres carbon isel iawn a gwydn i adeiladau mawr ym Mae Caerdydd; a'r
- Rhaglen adeiladu ysgolion newydd sydd bellach yn nodi ysgolion hynod effeithlon sydd bron yn barod ar gyfer sero-net ar gyfer ein poblogaeth iau.

GWAITH YN Y DYFODOL :

Mae data caffael wedi dod yn fwy gronynnog dros amser ac er bod caffael yn dal i ddibynnu'n helaeth ar ddata Haen 1 (gwariant ariannol), mae cynlluniau ar waith i ddarparu data Haen 2 manylach (data allyriadau carbon gan gyflenwyr) ar feysydd peilot gyda chyflenwyr pan roddir gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf (2025/26). Fodd bynnag, mae heriau wrth ddarparu data Haen 2 gan gynnwys aeddfedrwydd cyflenwyr amrywiol o ran cyfrifo allyriadau/ôl troed carbon, ac ar gyfer y cyflenwyr hynny sy'n gallu darparu data allyriadau, does dim system ganolog i gyflenwyr adrodd am eu hallyriadau carbon ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi bod yn gweithio ar weithredu trothwy newydd y Cynllun Lleihau Carbon o £2m (heb gynnwys TAW), lle bydd angen i gyflenwyr ymrwmo i ddarparu Cynllun Lleihau Carbon o fewn 6 mis i ddyddiad dechrau'r contract. Bydd Nodyn Polisi Caffael Cymru 06/21 yn parhau i fod ar gyfer contractau uwchlaw trothwy o £5m (heb gynnwys TAW), lle mae'n rhaid i gyflenwyr ddarparu Cynllun Lleihau Carbon gyda'u cyflwyniad tendr.


Rydym yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o aeddfedrwydd carbon cyflenwyr yn ystod y broses dendro ac wedi cyflwyno cwestiynau 'gwybodaeth yn unig' mewn tendrau i ddeall yn well a all cyflenwyr ddarparu data allyriadau neu Gynlluniau Lleihau Carbon ar gyfer contractau o dan £2 filiwn (heb gynnwys TAW).

Bydd hyn yn ein helpu i fesur nifer y cyflenwyr sy'n cyfrifo eu hallyriadau a bydd yn cefnogi ein symudiad i gasglu data Haen 2 pan gytunir ar offeryn adrodd i gipio'r allyriadau hyn.

Mae Ardal mewn trafodaethau â'r Supply Chain Sustainability School ynghylch eu teclyn adrodd allyriadau, a allai gefnogi casglu data Haen 2. Mae Ardal hefyd yn rhan o waith peilot Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (GYLIC) gyda'r nod o safoni casglu data allyriadau gan gyflenwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ar gyfer adroddiad 2025/26, rydym yn bwriadu gallu:

- Cynnwys data Haen 2 yn ein hadroddiadau sero net (o Gynlluniau Lleihau Carbon a dderbyniwyd ar y lleiaf).
- Cael mewnwelediadau i aeddfedrwydd carbon cyflenwyr trwy'r cwestiynau tendr newydd yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno.
- Sefydlu system adrodd allyriadau symlach i gyflenwyr lanlwytho eu data allyriadau carbon arni – boed hynny trwy gydweithrediad Ardal â'r Supply Chain Sustainability School, neu drwy ddatrysiad digidol a nodwyd o'r prosiect GYLIC sydd ar ddod.



Data Allweddol Dinasyddol 2019 - 2023

Wrth edrych ar y cyfnod hirach rhwng 2019 a 2023, mae'r tueddiadau'n dangos bod allyriadau unigol (y pen) wedi gostwng 21.6% a chyfanswm allyriadau (absoliwt) wedi gostwng 14.7% yn gyffredinol. Mae'n debygol y gallai'r niferoedd hirdymor hyn fod wedi bod hyd yn oed yn is, ond bu cynnydd dros dro mewn allyriadau rhwng 2020 a 2021 wrth i'r byd adfer ar ôl codi cyfyngiadau Covid. Trafnidiaeth oedd y ffynhonnell fwyaf o allyriadau carbon Caerdydd ar gyfer y flwyddyn waelodlin a'r flwyddyn gyfredol. Y gostyngiad mwyaf sylweddol dros y cyfnod hwn, sef 34.8%, oedd mewn allyriadau gwastraff, gan adlewyrchu dargyfeiriad cynyddol o wastraff o safleoedd tirlenwi.


NEWIDIADAU LEDLED Y DDINAS MEWN ALLYRIADAU A NEWID CANRANNOL MEWN ALLYRIADAU

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)

BLWYDDYN	TRAFNIDIAETH (kt CO ₂ e)	DOMESTIG (kt CO ₂ e)	MASNACHOL (kt CO ₂ e)	DIWYDIANT (kt CO ₂ e)	SECTOR CYHOEDDUS (kt CO ₂ e)	GWASTRAFF (kt CO ₂ e)	AMAETHYDDIAETH (kt CO ₂ e)	DEFNYDD TIR (kt CO ₂ e)	CYFANSWR TERFYNOL (kt CO ₂ e)	Y PEN (t CO ₂ e)
2019	724.0	449.4	194.1	254.2	87.7	86.9	12.7	9.6	1,818.7	5.1
2023	681.6	361.6	175.6	174.0	84.5	56.7	9.5	7.6	1,551.1	4.0
NEWID CANRANNOL	-5.9	-19.5	-9.5	-31.5	-3.6	-34.8	-25.2	-20.8	-14.7	-21.6

CCYMHARIAETH O ALLYRIADAU LEDLED Y DDINAS YN ÔL CATEGORI (kt CO₂ e)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Data Allweddol Dinasyddol 2022 - 2023

O 2022 i 2023, gostyngodd allyriadau'n sylweddol. Bu gostyngiad 11.1 mewn allyriadau unigol (y pen) a 7% yng nghyfanswm yr allyriadau (absoliwt). Trafnidiaeth oedd y ffynhonnell fwyaf o allyriadau carbon Caerdydd ar gyfer 2022 a 2023. Y gostyngiad canrannol mwyaf rhwng y blynyddoedd, sef 46.8%, oedd mewn allyriadau gwastraff.

CYMHARIAETH O ALLYRIADAU LEDLED Y DDINAS YN ÔL CATEGORI (kt CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)



NEWIDIADAU LEDLED Y DDINAS MEWN ALLYRIADAU A NEWID CANRANNOL MEWN ALLYRIADAU :

Ar gyfer y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)


BLWYDDYN	TRAFNIDIAETH (kt CO ₂ e)	DOMESTIG (kt CO ₂ e)	MASNACHOL (kt CO ₂ e)	DIWYDIANT (kt CO ₂ e)	SECTOR CYHOEDDUS (kt CO ₂ e)	GWASTRAFF (kt CO ₂ e)	AMAETHYDDIAETH (kt CO ₂ e)	DEFNYDD TIR (kt CO ₂ e)	CYFANSWR TERFYNOL (kt CO ₂ e)	Y PEN (t CO ₂ e)
2022	679.5	385.8	197.5	194.4	84.5	106.5	11.0	8.0	1667.2	4.5
2023	681.6	361.6	175.6	174.0	84.5	56.7	9.5	7.6	1551.1	4.0
NEWID CANRANNOL	0.3	-6.3	-11.1	-10.5	0.0	-46.8	-13.6	-5.0	-7.0	-11.1

Cymharu Dinasoedd Craidd

Fe wnaethom gymharu data allyriadau carbon Caerdydd â data eraill Dinasoedd Craidd y DU. Mae hyn yn dangos mai allyriadau y pen Caerdydd yw'r trydydd uchaf o'r Dinasoedd Craidd yn 2023, ond ein bod yn ganolig o ran lleihau allyriadau y pen rhwng 2019 a 2023. Mae'r data hefyd yn dangos bod Caerdydd ychydig yn is na'r pwynt canol ar gyfer lleihau ei allyriadau absoliwt yn ystod y cyfnod hwn o'i chymharu â dinasoedd craidd eraill.


CYMHARIAETH O ALLYRIADAU DINASOEDD CRAIDD Y PEN (kt CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Gyfredol (2023)




CYMHARIAETH O ALLYRIADAU ABSOLIWT DINASOEDD CRAIDD (kt CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Gyfredol (2023)




CYMHARIAETH O NEWID CANRANNOL DINASOEDD CRAIDD MEWN ALLYRIADAU Y PEN (%) :

O'r Flwyddyn Waelodlin (2019) i'r Flwyddyn Gyfredol (2023)



CYMHARU NEWID CANRANNOL DINASOEDD CRAIDD MEWN ALLYRIADAU MASNACHOL ABSOLIWT RHWNG (%) :

O'r Flwyddyn Waelodlin (2019) i'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Trafnidiaeth

Yng Nghaerdydd, bu gostyngiad 5.9% mewn allyriadau trafndiaeth rhwng blwyddyn waelodlin 2019 a 2023, a 0.3% rhwng 2022 a 2023.

CYMHARIAETH O ALLYRIADAU TRAFNDIAETH ABSOLIWT LEDLED Y DDINAS (kt CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019), y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Trafnidiaeth yw'r sector sy'n allyrru uchaf ar gyfer y ddinas o hyd, gan gyfrannu 681,600 tonnelli, neu 43.9% o allyriadau'r ddinas yn 2023. Ar lefel y DU, bu cynnydd 2.1% mewn allyriadau carbon trafndiaeth yn 2023 o'i gymharu â 2022, gan barhau â'r adferiad o weithgarwch teithio ers i gyfyngiadau Covid gael eu codi. Mae'r sector hwn yn parhau i fod yn gyfrifol am y lefel uchaf o allyriadau ac yn un o'r meysydd targed allweddol ar gyfer gweithredu datgarboneiddio penodol a pharhaus trwy ein Strategaeth Drafnidiaeth.

Fe wnaethom gymharu allyriadau trafndiaeth Caerdydd â Dinasoedd Craidd eraill y DU ac mae hyn yn dangos bod cyfraniad allyriadau o drafnidiaeth Caerdydd at allyriadau cyffredinol ledled y ddinas yn arbennig o sylweddol. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw lefel y buddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus mewn llawer o ddinasoedd craidd mewn rhannau eraill o'r DU wedi'i chyflawni yng Nghymru. O ganlyniad, mae dinasoedd eraill ymhellach ar y blaen o ran datblygu rhwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus integredig tra bod Caerdydd yn dal i fod yn y broses o ddatblygu datrysiadau trafndiaeth dorfol y mae dinasoedd craidd eraill wedi'u rhoi ar waith ers blynnyddoedd lawer. Mae Caerdydd yn cyflwyno ystod o fecanweithiau eraill yn rhagweithiol i annog newid moddol o ran trafndiaeth.


CYMHARIAETH O ALLYRIADAU TRAFNDIAETH ABSOLIWT DINASOEDD CRAIDD (kt CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Gyfredol (2023)




CYMHARIAETH O ALLYRIADAU TRAFNDIAETH DINASOEDD CRAIDD Y PEN (t CO₂ e) :

Ar gyfer y Flwyddyn Gyfredol (2023)



CYMHARU NEWID CANRANNOL DINASOEDD CRAIDD MEWN ALLYRIADAU TRAFNDIAETH ABSOLIWT (%) :

O'r Flwyddyn Waelodlin (2019) i'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Domestig

Yng Nghaerdydd bu gostyngiad 19.5% mewn allyriadau domestig rhwng blwyddyn waelodlin 2019 a 2023, a 6.3% rhwng 2022 a 2023.

CYMHARIAETH O ALLYRIADAU DOMESTIG ABSOLIWT LEDLED Y DDINAS (kt CO₂ e) 📊

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019), y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Allyriadau domestig oedd y sector â'r ail lefel uchaf o allyriadau yn 2023, gan gyfrif am 361,600 tonnall o CO₂ e, neu 23.3% o'n hallyriadau ledled y ddinas. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am weithredu dwysach, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, i ysgogi a rhoi hwb i gynnydd yn y maes her pwysig a chymhleth hwn. O ganlyniad, mae ôl-osod ynni domestig yn elfen bwysig yng Nghynnydd Twf Gwyrdd y Cyngor.

Diwydiant

Yng Nghaerdydd bu gostyngiad 31.5% mewn allyriadau diwydiant rhwng blwyddyn waelodlin 2019 a 2023, a 10.5% rhwng 2022 a 2023.

CYMHARIAETH O ALLYRIADAU DIWYDIANT ABSOLIWT LEDLED Y DDINAS (kt CO₂ e) 📊

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019), y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Yn y DU, bu gostyngiad 8% mewn allyriadau diwydiant rhwng 2022 a 2023 a gostyngiad mewn 85% o ardaloedd awdurdodau lleol. Mae hyn oherwydd gostyngiad graddol mewn gweithrediadau diwydiannol ynni-ddwys sy'n adlewyrchu tueddiadau'r DU o ddad-ddiwydiannu a symud tuag at economïau sy'n seiliedig ar wasanaethau a gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y sector. Mae allyriadau diwydiant Caerdydd yn cyfrif am 11% o'r allyriadau yn 2023, ond ar gyfer y DU yn gyffredinol mae'n 15%.

Masnachol

Yng Nghaerdydd bu gostyngiad 9.5% mewn allyriadau masnachol rhwng blwyddyn waelodlin 2019 a 2023, a 11.1% rhwng 2022 a 2023 (roedd allyriadau masnachol yn 2022 yn uwch na 2019).

CYMHARIAETH O ALLYRIADAU MASNACHOL ABSOLIWT LEDLED Y DDINAS (kt CO₂e)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019), y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Mae allyriadau masnachol yn deillio yn bennaf o ddefnydd busnesau o drydan a nwy. Gellir priodoli'r gostyngiad diweddar mewn allyriadau masnachol i dymheredd uwch na'r arfer yn 2023 ynghyd â phrisiau ynni uchel.

Fodd bynnag, o'i chymharu â Dinasoedd Craidd eraill y DU, Caerdydd sydd wedi gwneud yr ail gynnydd lleiaf o ran lleihau allyriadau masnachol. Mae ymchwiliad pellach yn dangos bod Caerdydd wedi gweld y newid canrannol uchaf yn nifer y busnesau gweithredol sy'n adlewyrchu tuedd mewn gweithgarwch economaidd cyffredinol ar draws y ddinas. Fodd bynnag, mae Tîm Datblygu Economaidd Caerdydd yn ymchwilio i arferion da mewn mannau eraill ac yn cwmpasu'r potensial ar gyfer mentrau megis:

- Hwyluso clymblaid neu fforwm hinsawdd busnes ledled y ddinas i hyrwyddo arferion carbon isel a rhannu arferion gorau.
- Archwilio'r defnydd o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFFG) neu CUB i gefnogi mentrau bach a chanolig (BBaChau) wrth fabwysiadu technolegau effeithlonrwydd ynni neu adnewyddadwy.
- Hyrwyddo defnyddio paneli solar ar doeon eiddo masnachol ar raddfa fawr ar draws sector busnes Caerdydd.
- Cydweithredu ar atebion solar clyfar gan gynnwys paneli ffotofoltäig, batris storio a mannau gwefru cerbydau trydan ar gyfer gweithdai sy'n eiddo i'r Cyngor, gyda chynlluniau i ymestyn i barciau busnes lleol.
- Cefnogi cyfleoedd buddsoddi sy'n cael eu gyrru gan ACLI ar gyfer ôl-osod ac ynni adnewyddadwy.
- Helpu i lunio portffolio buddsoddi o safleoedd ynni adnewyddadwy i ddenu diddordeb y sector preifat.


CYMHARU NEWID CANRANNOL DINASOEDD CRAIDD MEWN ALLYRIADAU MASNACHOL ABSOLIWT (%)

O'r Flwyddyn Waelodlin (2019) i'r Flwyddyn Gyfredol (2023)



CYMHARU NEWID CANRANNOL YM MUSNESAU GWEITHREDOL DINASOEDD CRAIDD (%)

O'r Flwyddyn Waelodlin (2019) i'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Sector Cyhoeddus

Yng Nghaerdydd, bu gostyngiad 3.6% yn allyriadau'r sector cyhoeddus rhwng blwyddyn waelodlin 2019 a 2023. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw newid rhwng 2022 a 2023.

CYMHARIAETH O ALLYRIADAU SECTOR CYHOEDDUS ABSOLIWT LEDLED Y DDINAS (kt CO₂ e)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019), y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)



Mae bron pob allyriad o'r sector cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol wedi gostwng ers 2019. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei yrru i raddau helaeth oherwydd llai o allyriadau trwy ddefnyddio trydan, sy'n ganlyniad i ddefnyddio llai o lo ar gyfer cynhyrchu trydan a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, bu gostyngiad 0% yn allyriadau sector cyhoeddus Caerdydd rhwng 2022 a 2023, tra bod gostyngiad 10% yn allyriadau'r sector cyhoeddus ledled y DU, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn allyriadau o ddefnyddio trydan a nwy. Gan mai Caerdydd yw canolfan drefol fwyaf Cymru, lle mae'r rhan fwyaf o allyriadau yn deillio o drafnidiaeth, diwydiant a defnydd domestig, dim ond cyfran fach o'r cyfanswm yw newidiadau yn y sector cyhoeddus, sy'n golygu y gall symudiadau absoliwt bach ymddangos fel newid 0% ar ôl talgrynnu.

Mae'r ffigur hwn yn cwmpasu holl sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Iechyd, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Brys.




Gwastraff

Yng Nghaerdydd bu gostyngiad 34.8% mewn allyriadau diwydiant rhwng blwyddyn waelodlin 2019 a 2023, a 46.8% rhwng 2022 a 2023.

CYMHARIAETH O ALLYRIADAU GWASTRAFF ABSOLIWT LEDLED Y DDINAS (kt CO₂ e)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019), y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)




Y prif resymau dros y gostyngiad mewn allyriadau gwastraff yw lleihau'r ddibyniaeth barhaus ar safleoedd tirlenwi o ganlyniad i strategaethau ailgylchu llwyddiannus ledled y ddinas. Roedd anghysondeb yn nata 2022, gyda chynnydd mewn allyriadau a oedd yn adlewyrchu cau cyfleuster 'ynni o wastraff' Viridor dros dro.

Cymhariaeth ranbarthol

Mae'r graffiau canlynol yn dangos cyfanswm y gostyngiad canrannol mewn allyriadau yng Nghaerdydd rhwng 2019-2023 a 2022-2023, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU.


CYMHARIAETH O OSTYNGIAD CANRANNOL MEWN ALLYRIADAU ABSOLIWT YN ÔL RHANBARTH/GWLAD (%)

Ar gyfer y Flwyddyn Waelodlin (2019) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)



CYMHARIAETH O OSTYNGIAD CANRANNOL MEWN ALLYRIADAU ABSOLIWT YN ÔL RHANBARTH/GWLAD (%)

Ar gyfer y Flwyddyn Flaenorol (2022) a'r Flwyddyn Gyfredol (2023)



Casgliad

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau ein hallyriadau carbon gweithredol a ledled y ddinas ac mae'r dadansoddiad trwy gydol yr adroddiad hwn yn dangos cynnydd da yn hyn o beth gyda llawer o gamau cadarnhaol yn amlwg ac yn effeithio mewn llawer o ffyrdd cadarnhaol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy, a bod angen cyflawni hyn mewn amgylchedd ariannol cyfyngedig a gyda phwysau cystadleuol eraill yn gyffredinol.

